# Gwers 8 – Helfa Drysor

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

| Goroesi | |
|---|---|
| **Lefel Gradd:** | **Teitl y Wers:** Helfa Drysor |

**<u>Amcan Dysgu:</u>**

- Fel dosbarth / mewn grwpiau bach, penderfynwch ar 9 hawl sy'n bwysig i ni ar gyfer goroesi a datblygu
- Mynegi syniadau a safbwyntiau ynghylch hawliau plant i ddatblygu llais y disgybl
- Gweithio fel tîm i lwyddo mewn tasg

**Er budd y myfyrwyr, esboniwch beth bydd y myfyrwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hyn.**

**<u>Bydd Rhai Dysgwyr:</u>** Yn gallu nodi'r hawliau allweddol sy'n bwysig er mwyn iddyn nhw ddatblygu a goroesi, gan gynnig syniadau a barn ynghylch pam mae hynny'n wir.

**<u>Bydd Mwyafrif y Dysgwyr:</u>** Yn gallu nodi hawl sy'n bwysig er mwyn iddyn nhw ddatblygu a goroesi

**<u>Bydd yr Holl Ddysgwyr:</u>** Yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o hawliau plant ar sail goroesi

**<u>Cwestiynau Allweddol:</u>**

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwers hawliau ddiwethaf?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Beth yw ystyr goroesi?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywbeth sydd ei angen arnon ni i oroesi?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywbeth sy'n ein helpu ni i ddysgu?

**Deunyddiau / Adnoddau angenrheidiol:**

- Stori Gymdeithasol – "Goroesi"
- Pecyn lluniau – "Goroesi" {dolen}
- Cardiau Symbolau

- Gwrthrychau i gyfeirio atynt
- “Llyfryn Fy Hawliau i”

**Cyflwyniad:**

Crynhowch y wers flaenorol, gan dynnu sylw at yr agweddau allweddol i’r disgyblion.

Dangoswch y pecyn lluniau “Goroesi” i’r dosbarth a gofyn i’r disgyblion eu dehongli. Dylech ofyn i’r disgyblion benderfynu pa hawliau plant maen nhw’n teimlo sy’n fwyaf pwysig er mwyn iddyn nhw oroesi a chael cyfleoedd i esbonio pam. Defnyddiwch gardiau symbolau neu wrthrychau cyfeiriadol i gynorthwyo dealltwriaeth.

Fel dosbarth, darllenwch y Stori Gymdeithasol “Goroesi” a gofyn i’r disgyblion ydy eu syniadau neu eu barn wedi newid. Os ydyn nhw, gofynnwch pam.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, dylai’r disgyblion fod wedi penderfynu ar eu hoff hawliau/eu hawliau pwysicaf drwy ddefnyddio tasg Diemwnt 9. Gall fod yn briodol cefnogi’r dysgwyr trwy gynnig detholiad o gardiau symbolau i ddewis ohonynt.

(Tasg Diemwnt 9: dewiswch 9 hawl a’u rhoi yn siâp diemwnt)

**Prif Weithgaredd:**

Dywedwch wrth y plant eu bod nhw’n mynd i gymryd rhan mewn Helfa Hawliau (tebyg i helfa drysor). Mae angen i’r disgyblion weithio fel tîm i ddilyn cliwiau er mwyn cael hyd i’r hawliau perthnasol.

I wneud hyn yn ddifyr, cofiwch ychwanegu heriau a fforffedau ar hyd y ffordd. Syniad yr helfa drysor yw “goroesi” ar hyd y gêm, felly gallai colli pêl o flwch y tîm fod yn un o’r fforffedau, er enghraifft (y tîm sydd â’r nifer mwyaf o beli ar y diwedd fydd yr enillwyr).

Dylai’r cliwiau arwain y disgyblion at yr hawliau cywir ar hyd y ffordd, gyda rhai hawliau ffug yn cael eu cynnwys i’w profi – bydd hyn yn hybu Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL) o safbwynt dealltwriaeth y disgyblion.

Yn dibynnu ar faint y dosbarth, gallai fod yn well gwneud hyn mewn grwpiau bach. Mae’n bwysig bod yr athro wedi paratoi’r cliwiau ymlaen llaw i hyrwyddo rheoli amser.

I gefnogi dysgwyr sydd ag Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog gallech guddio gwrthrychau cyfeiriadol yn ymyl y cliwiau.

| |
|---|
| **<u>Tasg Estyn:</u>**<br><br>Gweithio fel dosbarth i greu pecyn offer goroesi i'r plant ei ddilyn er mwyn cael diwallu eu hanghenion a chaniatáu iddyn nhw ddatblygu, cyfranogi, cael eu hamddiffyn a goroesi. Gallai'r gweithgaredd yma ddigwydd ar ffurf poster awgrymiadau gwych, neu hyd yn oed becyn offer ymarferol, a hynny fel dosbarth ac fel unigolion.<br><br>**<u>Parhaus:</u>** Llenwi tudalen 5 o'r Llyfryn Fy Hawliau i (Ar fy helfa drysor, des i o hyd i'r hawl i) |
| **<u>Sesiwn Lawn:</u>**<br><br>Crynhoi'r wers:<br><br>- Beth rydyn ni wedi'i ddysgu heddiw?<br>- Beth oedd eich hoff ran?<br>- Ddaeth y dosbarth o hyd i'r holl hawliau oedd yn bwysig iddyn nhw?<br>- Weithion nhw'n dda fel tîm? |
| **<u>Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):</u>**<br><br>Gall dealltwriaeth gael ei hasesu trwy holi ac adborth llafar. Bydd hunanasesu yn hybu AFL, wrth i'r dysgwyr ddarparu rhesymau priodol a dangos dealltwriaeth o'r pethau mae arnyn nhw eu hangen er mwyn goroesi. Cyfeiriwch yn ôl at amcanion y wers – ydyn nhw wedi cael eu cyflawni? |
| **<u>Gwahaniaethu:</u>**<br><br>- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion briodol<br>- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig/lefel isel â PECS / lluniau i gyfeirio atynt<br>- Gall dysgwyr ag Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog archwilio blwch synhwyrau i chwilio am wrthrychau cyfeiriadol priodol i greu eu diemwnt 9 eu hunain. |

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru @complantcymru neu e-bostio post@complantcymru.org.uk